

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/  
Prif Weithredwr GIG Cymru  
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/  
NHS Wales Chief Executive  
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

9 Rhagfyr 2020

Annwyl Mr Ramsay

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Tachwedd ynglŷn â'm sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Isod, mae gwybodaeth ychwanegol sy'n ateb eich ymholiadau.

**Nodyn ar brif ganfyddiadau'r adolygiad cymheiriaid o'r Cynlluniau Chwarter 2 a gyflwynwyd gan sefydliadau'r GIG, a sut y dylid rhoi'r dysgu cyfrannol ar waith.**

Rydym bellach wedi symud ymlaen o'n cynlluniau Chwarter 2. Cyhoeddwyd Fframwaith Gweithredu Ch3/Ch4 GIG Cymru ar 24 Medi 2020, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ar gyfer holl sefydliadau'r GIG gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 19 Hydref 2020. Derbyniwyd ac adolygwyd y cynlluniau hyn ac mae'n amlwg bod sefydliadau'r GIG wedi parhau i adeiladu ar eu gwaith cynllunio am weddill y flwyddyn, dan amgylchiadau heriol iawn.

Mae'r cynlluniau'n defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg ac roedd pob un yn cydnabod y 4 niwed fel cyd-destun allweddol ar gyfer darparu gofal a gwasanaethau a byddant yn darparu cyd-destun cyson ar gyfer cynllunio yn y dyfodol. Mae llawer iawn o gamau cadarnhaol i'w gweld, gan gynnwys partneriaethau cryfach ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol (gan gynnwys y trydydd sector a'r sector annibynnol), trefniadau llywodraethu lleol cryfach i wella'r broses o wneud penderfyniadau ac, yn bwysig iawn, ymrwymiad cryf i lesiant y staff. Mae cynlluniau hefyd yn dangos arloesedd a ffyrdd newydd o weithio gan gynnwys defnyddio technoleg ac atebion digidol i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol yn ystod y pandemig. Un enghraifft o hyn yw ymgynghoriadau rhithwir rhwng clinigwyr a'u cleifion, y cafwyd ymateb cadarnhaol iddynt. Bydd ein GIG a sefydliadau gofal cymdeithasol yn parhau i adolygu eu ffyrdd newydd o weithio gyda'r bwriad o ddarparu'r gwasanaethau hynny y tu hwnt i'r pandemig lle mae budd o wneud hynny.

Yn yr amgylchedd presennol gyda'r pandemig, bu'n rhaid cael gwell dealltwriaeth hefyd o fanylion cynlluniau ac er y gwneir ymdrech aruthrol i gyflawni eu cynlluniau, ni allwn guddio rhag yr heriau y mae ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hwynebu o ran cydbwyso eu gwasanaethau craidd â'r gweithgaredd ychwanegol yn sgil Covid-19. Yr uchaf yw'r cyfraddau trosglwyddo mewn cymunedau, yr anoddaf fydd cadw'r cydbwysedd hwnnw. Mae'r gweithlu yn her

allweddol ac mae sefydliadau wedi gorfod cynllunio mewn modd hyblyg er mwyn ymateb i'r argyfwng presennol yn sgil y pandemig. Er enghraifft, cymhlethdod a galw ychwanegol yn Ch3/4 fydd defnyddio'r brechlyn. Mae hyn wedi cynnwys yr angen i wneud y defnydd mwyaf o'r sgiliau a'r adnoddau sydd ar gael a dyma pam mae gweithio mewn partneriaeth mor bwysig.

Rhaid inni gydnabod hefyd, ers i'r cynlluniau hyn gael eu datblygu, ein bod wedi gweld cynnydd mewn gweithgaredd sy'n gysylltiedig â Covid ac fe wyddoch ein bod wedi cyflwyno 'cyfnod atal byr' gyda chyfyngiadau tynnach dros gyfnod o bythefnos i helpu i gyfyngu ar ledaeniad yr haint. Bydd hyn yn golygu bod gwasanaethau wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu yn seiliedig ar angen. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid allweddol ac yn parhau i fonitro'r sefyllfa wrth symud ymlaen.

### **Diweddariad ar ganlyniadau'r cyfarfodydd y mae'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi'u cael gyda phob sefydliad i adolygu eu cynlluniau ariannol a'u rhagolygon diweddaraf ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol.**

Fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 3 Tachwedd, roeddwn yn benderfynol ar ddechrau cyfnod yr argyfwng i sicrhau bod gan sefydliadau'r GIG brosesau llywodraethu a rheoli ariannol cadarn ar waith o'r cychwyn cyntaf, gan gydnabod bod yn rhaid gwneud penderfyniadau'n gyflym i roi'r ymyriadau angenrheidiol ar waith. Cyhoeddais ganllawiau ar Swyddogion Atebol a chanllawiau ariannol i Brif Weithredwyr ar 30 Mawrth yn amlinellu ystyriaethau allweddol wrth wneud penderfyniadau brys yn ystod pandemig, yn unol â safonau 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'.

Fe wnes i sicrhau bod gan holl fyrddau'r GIG strwythurau llywodraethu priodol i reoli'r ymateb brys yn lleol, gyda'r drefn reoli Aur yn cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau buddsoddi pwysig ym mhob sefydliad. Trefnwyd cyfarfodydd cyfathrebu wythnosol ar draws swyddogaeth gyllid GIG Cymru ac mae'r cyfarfodydd hynny wedi parhau gydag uwch swyddogion cyllid y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr yr Uned Cyflenwi Cyllid i sicrhau ymateb effeithiol ar draws y system. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cell Cyllid, dan gadeiryddiaeth fy Nghyfarwyddwr Cyllid a oedd yn cynnwys uwch swyddogion cyllid a chynrychiolwyr Cyfarwyddwyr Cyllid y GIG i sicrhau trosolwg a dylanwad y GIG mewn perthynas phob mater o bwys a sicrhau cyfatebiaeth rhwng polisi a chyflawniad gweithredol o safbwynt ariannol ledled GIG Cymru.
- galwad wythnosol gyda holl Gyfarwyddwyr Cyllid y GIG ac uwch swyddogion i archwilio'r holl faterion a risgiau gweithredol sy'n dod i'r amlwg sy'n gofyn am ymateb gan y system, a sicrhau cyfathrebu clir, cyson a rheolaidd ar bob mater er mwyn sicrhau eglurder a dull gweithredu cyson.

Un ffocws allweddol i'r sianeli cyfathrebu hyn fu sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r GIG yn addas at y diben, ac yn ymatebol i anghenion newidiol yr ymateb i'r pandemig. Ymysg yr enghreifftiau o'r materion dan sylw mae:

- Adolygu ac ailflaenoriaethu rhaglenni gwaith yr adran archwilio mewnol i gefnogi adolygiadau cyflym o drefniadau llywodraethu lle bo angen;
- Ymgysylltu ag Archwilio Cymru ar ymateb cymuned cyllid GIG Cymru; a

- Sicrhau bod strwythurau gwneud penderfyniadau clir ar waith i ymateb i'r risg o dwyll yn sgil yr angen i gynyddu'n sylweddol y taliadau a wneir ymlaen llaw i gyflenwyr er mwyn cael cyfarpar diogelu personol ychwanegol yn wyneb cystadleuaeth fyd-eang o fewn cadwyn gyflenwi ryngwladol yr effeithiwyd yn sylweddol arni gan COVID-19

Mae swyddogion, gyda chymorth yr Uned Cyflawni Ariannol, wedi sefydlu trefniadau monitro ariannol misol i sicrhau y gellid cofnodi'r effaith ar gynlluniau ariannol sylfaenol y GIG a'i monitro'n ofalus. Cyflwynir dadansoddiad manwl o effeithiau uniongyrchol yn ymwneud â chost, effeithiau o ran arbedion effeithlonrwydd cyflenwi a gwrthbwysu arbedion o ran adnoddau yn fisol i Lywodraeth Cymru gan bob un o sefydliadau'r GIG.

Yn ogystal, mae ymarferion adrodd ariannol pwrpasol a phenodol wedi'u cyflwyno ar draws y system mewn perthynas ag ymyriadau allweddol, gan gynnwys y gweithlu, cyfarpar diogelu personol, Profi, Orlhain a Diogelu, Ysbytai Maes a Chynllunio ar gyfer Brechu Torfol. Mae'r prosesau monitro ychwanegol hyn wedi darparu cefnogaeth i swyddogion polisi a sefydliadau'r GIG, gan sicrhau asesiadau clir o ran y gwasanaeth a'r gweithlu ac asesiadau ariannol clir ac ymgorffori'r rhain er mwyn sicrhau bod penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud drwy'r mecanweithiau llywodraethu perthnasol ar gyfer pob un o'r rhaglenni hyn. Mae hyn wedi cynorthwyo swyddogion Llywodraeth Cymru i reoli effaith ariannol y pandemig ar gyllideb y prif grŵp gwawriant lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Er mwyn triogli ein hymagwedd â systemau eraill, mae swyddogion Llywodraeth Cymru gyda'r Uned Cyflawni Ariannol wedi ymgysylltu'n rheolaidd a chyson ag uwch gydweithwyr cyllid y GIG yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hwn wedi bod yn gyfle defnyddiol i rannu dulliau gweithredu, methodolegau ac effeithiau ariannol, a gwirio a phrofi gweithgareddau ein gilydd fel her cymheiriaid a hefyd er mwyn profi ein ffordd o feddwl wrth fireinio ein dulliau gweithredu a sicrhau eu bod yn gynhwysfawr.

Fel ymarfer allweddol i sicrhau rheolaeth ariannol gadarn o gyllideb GIG Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phob cyfarwyddwr cyllid y GIG ddechrau mis Tachwedd, ac roeddent yn ymdrin â'r materion a ganlyn:

- Asesiad cronol o effaith ariannol y pandemig ar bob sefydliad a'r her yn sgil hynny, a'r prosesau llywodraethu ariannol i reoli'r effaith hon;
- Adolygiad manwl o sefyllfa alldro'r flwyddyn hyd yma a'r sefyllfa alldro a ragwelir i bob sefydliad ar gyfer 2020-21, ochr yn ochr ag ystyried elfennau ariannol y cynlluniau a gyflwynwyd ar gyfer Chwarteri 3 a 4;
- Asesiad gan yr Uned Cyflawni Ariannol o gadernid cynlluniau ariannol a sut y maent yn cyd-fynd â chynlluniau ar gyfer gwasanaethau a'r gweithlu, a gafodd ei brofi a'i herio yn y cyfarfod;
- Cadarnhau rhagolwg clir a set o gamau gweithredu ar gyfer pob sefydliad, ac adlewyrchu arfer da a themâu'n ymwneud â'r system sydd bellach yn cael eu cynnwys fel rhan o gyfarfodydd wythnosol y cyfarwyddwyr cyllid; a
- Materion yr oedd angen bwrw ymlaen â hwy ar lefel genedlaethol, yn ymwneud yn bennaf ag ystyried effaith ariannol y Rhaglen Brechu Torfol sy'n datblygu. Bydd hyn yn dod yn rhan o'r broses fonitro fisol am weddill y flwyddyn ariannol

Yn ogystal, rydym wedi cadarnhau terfynau adnoddau cyfalaf ar gyfer pob sefydliad am weddill y flwyddyn, yn seiliedig ar broses adolygu i sicrhau bod materion a risgiau sydd heb eu datrys yn cael eu cofnodi'n briodol.

Roedd y cyfarfodydd gyda phob un o gyfarwyddwyr cyllid y GIG yn rhoi cryn sicrwydd bod gan sefydliadau bellach yr arian sydd ei angen arnynt i ymateb i effaith barhaus y pandemig a chynnal gwasanaethau gofal iechyd hanfodol eraill dros y gaeaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ariannu'r holl gostau cyfarpar diogelu personol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol tan ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac maent hefyd yn dyrannu cyllid i dalu costau'r rhaglen Profi Olrhain a Diogelu. Yn ogystal, dyrannwyd £371 miliwn i fyrddau iechyd lleol i gefnogi eu cynlluniau lleol ar gyfer ail ran y flwyddyn ariannol.

O ganlyniad i'r camau yr ydym wedi'u cymryd i sefydlogi sefyllfa gyllido'r GIG, mae'r unig ddiffygion sy'n cael eu rhagweld ar gyfer diwedd y flwyddyn yn ymwneud â diffygion cynllunio cyn-covid ym Myrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac Abertawe. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhagweld alldro cytbwys yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog am y pecyn cymorth strategol i'r Bwrdd ar 3 Tachwedd.

### **Manylion y mecanweithiau y mae'r GIG wedi'u mabwysiadu i wrthsefyll arferion twyllodrus o ran caffael.**

Fe'ch cyfeiriaf at y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 19 Tachwedd ynghylch contractau cyfarpar diogelu personol. Mae'r holl gontractau ar gyfer cyfarpar diogelu personol a drefnwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ystod y pandemig wedi cael eu hadolygu gan Grŵp Llywodraethu Cyllid sy'n gweithio o fewn y trefniadau llywodraethu ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, sy'n lletya'r Bartneriaeth Cydwasanaethau. Roedd y Grŵp yn cynnwys mewnbyn gan arbenigwyr atal twyll GIG Cymru, yn ogystal â'r adran archwilio mewnol. Yn ogystal, o dan ofynion Deddf GIG Cymru 2006, cyflwynir holl gontractau'r GIG dros £1 miliwn i mi i'w hadolygu.

### **Trosolwg o gymarebau nyrsio yn y GIG, a manylion ar nifer y nyrsys a meddygon sydd wedi ymddeol ac sydd wedi'u hail-gyflogi i leddfau pwysau ar y gwasanaeth yn ystod y pandemig.**

Nid oes gan Lywodraeth Cymru ddata wedi'u dilysu ar y cymarebau nyrsio yn y GIG yn ystod y pandemig Covid-19 ac felly ni all roi unrhyw drosolwg manwl. Mae staff nyrsio wedi bod yn addasu ac yn esblygu'n barhaus i ddiwallu anghenion y gwasanaeth drwy gydol y pandemig.

Cyhoeddwyd nifer o adnoddau ar gyfer y gweithlu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn y gwanwyn gan gynnwys Egwyddorion Cynllunio'r Gweithlu ar gyfer Covid-19 a ddatblygwyd gan is-grŵp Cell y Gweithlu, a nod y 9 egwyddor hyn oedd cefnogi sefydliadau GIG Cymru i fabwysiadu dull cyson o gynllunio eu gweithlu yn ystod pandemig y Coronafeirws a thu hwnt. Mae'r egwyddorion yn nodi y bydd yn ofynnol i'r gweithlu weithio'n wahanol, mewn ffyrdd a lleoliadau newydd a defnyddio gwahanol ddulliau gan gynnwys adnoddau digidol. Mae'r egwyddorion yn cydnabod yr angen i gynllunio ar gyfer ymchwyddiadau a dychwelyd i drin cleifion nad ydynt yn gleifion Covid ac y bydd yn rhaid adolygu cynlluniau'r gweithlu yn rheolaidd i sicrhau eu bod

yn parhau i fod yn gydnerth ac yn gallu addasu i'r newidiadau y bydd eu hangen yn y gweithlu. Maent hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, defnyddio timau amlddisgyblaethol a'r ffocws ar alluogi cleifion a llesiant y gweithlu.

Ar ddechrau pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020, ysgrifennodd y Prif Swyddog Nyrsio at gyfarwyddwyr gweithredol nyrsio yn GIG Cymru ynghylch y canllawiau proffesiynol a ddatblygwyd ar lefel y DU ynglŷn â'r dull y gellid ei fabwysiadu ar gyfer cymarebau staff mewn lleoliadau gofal critigol yn ystod y pandemig. Cymeradwywyd y canllawiau hyn gan Brif Swyddogion Nyrsio'r DU ar y cyd â nifer fawr o gymdeithasau gweithwyr nyrsio proffesiynol ac roedd yn cynnwys lefelau staffio priodol ar gyfer gofal critigol ar draws yr amrywiol lefelau ymchwydd.

Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Prif Swyddog Nyrsio lythyr ar y cyd â'r dirprwy Brif Swyddog Meddygol, yn nodi bod gwersi a ddysgwyd ledled y DU, o ran ymarferoldeb a diogelwch gweithredu ar y lefelau/cymarebau ymchwydd uchaf yn ogystal â'r realiti na phrofwyd, yn y rhan fwyaf o achosion, mai staffio yw'r ffactor cyfyngol ar gyfer capasiti gofal critigol, wedi arwain at adolygu'r canllawiau hyn. Cytunwyd y byddai'r canllawiau ar ymchwydd eithriadol ar gyfer nyrsys gofal critigol y cyfeiriwyd atynt yn y llythyr ym mis Mawrth yn cael eu tynnu'n ôl yng Nghymru ac y dylai Byrddau Iechyd geisio bodloni'r gofynion a nodir yng nghanllawiau pontio'r Gyfadran Meddygaeth Gofal Dwys. Yr wythnos hon ar 23 Tachwedd mae'r Prif Swyddog Nyrsio wedi ysgrifennu at y cyfarwyddwyr nyrsio i dynnu eu sylw at y datganiadau a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Gofal Dwys a Chynghrair Nyrsio Gofal Critigol y DU ar staff nyrsio ar gyfer ail don COVID.

Mae'r ddau ddatganiad yn nodi: *'nurse: patient ratios are maintained at a minimum of one trained critical care nurse\* and one registered healthcare professional\*\* for two level 3 beds (compared with the normal 1:1 ratio), and one trained critical care nurse with one registered healthcare professional for four level 2 beds (compared to the normal 1:2 ratio). This should be achieved through the redeployment of staff from outside of critical care, who should have received surge training.'*

Mae'r Prif Swyddog Nyrsio wedi gofyn a allai GIG Cymru gefnogi unedau gofal critigol i sicrhau y cedwir at y cymarebau staffio a amlinellir yn y datganiad uchod er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a llesiant staff yn ystod ail don o'r pandemig ac o bosibl yn ystod tonnau dilynol.

### **Manylion ar nifer y nyrsys a meddygon sydd wedi ymddeol ac sydd wedi'u hailgyflogi i leddfu pwysau ar y gwasanaeth yn ystod y pandemig.**

Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, rydym yn ymwybodol o 40 sydd wedi ailgofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a 53 sydd wedi ailgofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ledled GIG Cymru. Noder nad yw hwn yn gyfanswm treigl o'r trefniadau gweithio dros dro hyd yma; mae'r wybodaeth hon o'r Cofnod Staff Electronig yn dangos aseiniadau gweithredol. Ni fyddai y rhai a ail-gofrestrodd dros dro ac sydd wedi gadael ers hynny yn cael eu cofnodi yn y ffigurau hyn.

Yn ystod mis Gorffennaf 2020, cynhaliodd y Bartneriaeth Cydwasanaethau arolwg ar-lein i ganfod lefel y diddordeb parhaus gan yr unigolion cofrestredig hynny a fynegodd ddiddordeb mewn dychwelyd i GIG Cymru yn y tymor canolig i'r tymor hir. O blith yr 828 o ymatebion, nododd 292 yr hoffent ymchwilio i'r posibilrwydd o

ddydwelyd i'r gofrestr broffesiynol yn barhaol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr y Bartneriaeth Cydwasaethau i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

### **Nodyn ar adolygiad Llywodraeth Cymru o fformiwla Townsend.**

Yn fy mhapur tystiolaeth i'r Pwyllgor ar gyfer y sesiwn a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, fe wnes i gynnwys manylion y fformiwla ddiwygiedig a ddatblygwyd ar gyfer gwasanaethau ysbytai a gwasanaethau cymunedol. Ein bwriad yw defnyddio'r fformiwla honno eto, wedi'i diweddarau ar gyfer data poblogaeth ac anghenion mwy diweddar, i ddsbarthu cyllid twf y GIG i fyrddau iechyd lleol yn 2021-22.

Yn anochel, cafodd y gwaith ar ddatblygu ymhellach y fformiwla ar gyfer iechyd meddwl ymhellach ei atal yn ystod camau cynnar y pandemig, ond ailgychwynnodd yn ystod yr haf. Yn dilyn sesiynau ymgysylltu llawn gwybodaeth gyda Chadeiryddion y GIG, Is-gadeiryddion a'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl, mae gwaith bellach ar y gweill i ddatblygu fformiwla i ddsbarthu cyllid twf iechyd meddwl fel rhan o ddyraniad iechyd meddwl y GIG wedi'i glustnodi. Y gobaith yw dod â'r gwaith hwn i ben yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd, a defnyddio'r fformiwla i ddsbarthu cyllid twf i fyrddau iechyd lleol yn 2021-22.

### **Wrth inni weld ail don o'r pandemig Covid-19, sut ydych chi'n blaenoriaethu cleifion nad ydynt yn gleifion COVID ac yn sicrhau nad yw'r blaenoriaethu hwn yn cael effaith andwyol ar rai grwpiau.**

Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar allu'r GIG i ddarparu 'gwasanaethau fel arfer'. Yn ystod y don gyntaf gohiriodd y GIG swm sylweddol o waith nad oedd yn waith brys nac yn ymwneud â covid, gan ddod o hyd i fecanweithiau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau eraill. Dysgwyd nifer o wersi o'r don gyntaf a gwnaed gwaith cynllunio sylweddol i gynnal cymaint o wasanaethau â phosibl yn ystod yr ail don. Y prif ffocws o hyd yw darparu gofal i'r rhai sydd â'r angen clinigol mwyaf dros yr ychydig fisoedd diwethaf, yn benodol cynnal a darparu gwasanaethau hanfodol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r fframwaith gwasanaethau hanfodol yn disgrifio sut rydym yn diffinio hanfodol, sut mae'n rhaid parhau i wneud penderfyniadau ar lefel claf unigol mewn trafodaeth â'i glinigwr. Mae'r fframwaith yn cyd-fynd â'r fframwaith moesegol a hefyd yn cynghori Byrddau ar yr angen i geisio sicrwydd etc. Felly, er enghraifft, mae triniaethau canser, triniaethau llawfeddygol a meddygol eraill, megis: cemotherapi a radiotherapi wedi bod ac yn parhau i fod yn feysydd blaenoriaeth allweddol. Gellir gweld y fframwaith yn:

<http://www.wales.nhs.uk/docopen/361704> - Cymraeg

<http://www.wales.nhs.uk/docopen/361703> - Saesneg

Yn ystod yr ail don, er bod y ffocws ar angen clinigol yn parhau, bu mwy o ffocws ar wasanaethau brys ac arferol yn ogystal â gwasanaethau covid a gwasanaethau hanfodol.

O ran gofal wedi'i gynllunio, datblygodd a chyhoeddodd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon ganllawiau yn ymwneud â defnyddio prosesau blaenoriaethu clinigol yn briodol. Mae'r canllawiau'n ymdrin ag ystod eang o driniaethau llawfeddygol sydd, yn ôl eu natur, â blaenoriaeth glinigol sy'n pennu pryd y dylid ymgymryd â thriniaethau. Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi gweithredu'r canllawiau hyn i benderfynu sut y dylid blaenoriaethu cleifion ar gyfer triniaeth. Cydnabyddir bod cyfyngiadau i'r dull hwn yn yr ystyr ei fod yn ystyried risg o niwed clinigol o safbwynt rhoi bywyd yn y fantol.

Mae angen diffinio blaenoriaethu o ran cleifion allanol yn gliriach, mae gwaith sy'n edrych ar lefel yr arbenigedd yn cael ei wneud ar y cyd â datblygu cymorth atgyfeirio a chynghor mewn gofal sylfaenol. Tra bod hyn yn digwydd, mae byrddau iechyd yn adolygu eu rhestrau aros ar gyfer cleifion allanol a gwaith dilynol i sicrhau bod y rhai mwyaf anghenus yn cael eu blaenoriaethu.

Mae clinigwyr ledled Cymru yn adolygu eu rhestrau yn rheolaidd i adnabod cleifion y mae angen eu hadolygu ac y mae angen gofal arnynt ar unwaith ac maent yn cysylltu â chleifion i drafod unrhyw gamau posibl i'w cefnogi tra byddant yn aros.

Mae'r gofyniad i gadw pellter corfforol mewn ysbytai wedi ei gwneud yn bwysicach nag erioed ein bod yn blaenoriaethu asesu a thrin cleifion sydd â'r angen clinigol mwyaf mewn Adrannau Brys. Er mwyn cefnogi'r gwaith o leihau wardiau gorlawn, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid i Fyrddau Iechyd i ddatblygu braenarwyr 'cyswllt cyntaf' a chanolfannau gofal sylfaenol brys 24/7 i sicrhau bod slot yn cael ei ddyrannu i bobl yn yr Adran Achosion Brys ond nad oes angen gofal ar unwaith arnynt, neu eu bod yn cael eu cyfeirio i'r lle iawn yn y gymuned, y tro cyntaf.

Mae'r swm cyfyngedig o le a chapasiti ffisegol ger drws ffrynt ysbytai hefyd yn arwain at oblygiadau o ran trosglwyddo cleifion o gerbydau ambiwlans i ofal staff ysbyty. Gall hyn yn ei dro effeithio ar ymatebolrwydd rhai cleifion yn y gymuned ac mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru wedi gweithredu 'cynllun rheoli'r galw' sy'n ceisio blaenoriaethu cleifion y mae angen ymateb cyflym arnynt fwyaf os bydd oedi wrth drosglwyddo claf wedi effeithio ar gapasiti'r gwasanaeth ambiwlans.

Er bod gofal mewn ysbytai yn cyfrannu'n sylweddol at ofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu, 'ceffyl gwaith' y GIG o hyd o ran gweithgaredd yw'r maes Gofal Sylfaenol. Mae cryn dipyn o waith a chynllunio wedi'i wneud yn y maes hwn i sicrhau mwy o gydnerthedd.

Drwy gydol y cyfnodau o gyfyngiadau symud a chyfyngiadau eraill, mae gwasanaethau Gofal Sylfaenol wedi bod ar agor ac ar gael i gleifion. I ddechrau, roedd defnyddio hybiau clwstwr o'r cychwyn yn golygu bod darpariaeth ar gyfer pob claf yr oedd angen gofal brys arno. Wrth i'r ymateb i'r pandemig ddatblygu, datblygodd ymateb ymarferwyr hefyd, gyda gweithgaredd arferol yn cynyddu'n raddol ers yr haf.

Drwy gydol y pandemig, mae meddygon teulu wedi cydbwysu aildechrau gwasanaethau arferol ac ymateb i'r pandemig, drwy gyflwyno ffyrdd newydd o weithio, megis ymgynghoriadau dros y ffôn a thrwy fideo a brysbennu dros y ffôn. Mae hyn wedi galluogi meddygon teulu i gynyddu nifer y cysylltiadau â chleifion yn ystod y pandemig.

O ddiwedd mis Mawrth, ar ôl y cyfnod cychwynnol o gyfyngiadau symud, gostyngodd gweithgaredd meddygon teulu a fesurwyd ar sail cysylltiadau cleifion i oddeutu 60% o'r gweithgaredd arferol. Sefydlogodd hyn drwy'r haf, ac o ganlyniad i'r ffyrdd newydd o weithio, mae gweithgaredd wedi cynyddu'n sylweddol, gyda chysylltiadau â chleifion ar lefelau tebyg i 2019 erbyn hyn, er bod hynny drwy wahanol fodelau darparu gwasanaeth.

Gan adeiladu ar fentrau blaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu byrddau iechyd i sefydlu Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys ar sail cynllun 'braenaru'. Bydd y canolfannau 'braenaru' hyn sy'n seiliedig ar ôl troed clwstwr yn darparu gofal brys ar yr un diwrnod i'w cymuned leol, gan leihau'r pwysau ar wasanaethau Adrannau Achosion Brys a'r Tu Allan i Oriau.

Mae'r gostyngiad yng nghyfraddau ac effaith y fflw tymhorol drwy gyflwyno'r rhaglen brechu rhag y fflw wedi bod yn flaenoriaeth sylweddol. Mae meddygon teulu wedi addasu eu hymarfer i alluogi'r rhaglen brechu rhag y fflw i ddechrau'n llwyddiannus eleni a hyd yma mae'r nifer sy'n manteisio ar y brechlyn ar gyfer y gwahanol grwpiau risg yn uwch nag ar yr un dyddiad yn 2019. Mae'r lefelau cyfredol y fflw yn fach iawn a bydd llawer o'r camau blaenorol ar gyfer covid 19 e.e. cadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo, yn cyfyngu ar drosglwyddo'r fflw hefyd.

Mae angen cymorth gan wasanaethau adfer cymunedol ar bobl sy'n gwella ar ôl COVID 19 ac mae Fframwaith Adsefydlu Cenedlaethol wedi'i gyhoeddi ynghyd â chyfres o adnoddau i helpu gwasanaethau lleol i gynllunio.

Er y gall y niferoedd fod yn gymharol fach o hyd, mae rhai pobl yn profi ystod o effeithiau megis diffyg anadl, blinder a phroblemau'r galon a'r ysgyfaint. Cyfeirir at hyn yn gynyddol fel COVID Hir. Ar lefel genedlaethol, wrth inni barhau i ddysgu am COVID Hir, byddwn yn parhau i ddiweddarau ein canllawiau presennol a datblygu adnoddau ychwanegol.

Arhosodd mwyafrif y practisau deintyddol 'ar agor', i roi cyngor o bell, presgripsiynau ac ar gyfer asesiad wyneb yn wyneb/gofal ar gyfer achosion brys os oedd hynny'n hollol angenrheidiol, o ddiwedd mis Mawrth tan ddiwedd mis Mehefin. Sefydlwyd 15 o Ganolfannau Gofal Brys ledled y wlad. Roedd tua 2000 o gleifion yn cael eu gweld yn bersonol ac yn cael eu trin yn wythnosol hyd fis Mehefin.

Ers mis Mehefin mae gwasanaethau deintyddol yn gweithredu'n llawnach, mae Deintyddion a swyddogion wedi datblygu a chyhoeddi trefniadau gweithredu safonol, gan fod deintyddiaeth yn gofyn am ddefnyddio Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol. Mae cynnal Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol yn ddiogel mewn gwasanaethau deintyddol yn golygu bod angen amser segur o hyd at awr mewn deintyddfeydd ar ôl darparu triniaeth, a bod angen defnyddio cyfarpar diogelu personol ychwanegol.

Mae gwella'r awyru a mesurau eraill er mwyn lleihau amser segur wedi galluogi nifer y triniaethau i gynyddu'n gyflym, a bellach mae dros 20,000 o gleifion yn cael eu gweld bob wythnos. Mae lefelau cleifion cyffredinol yn dal i fod yn isel o gymharu â 2019, gyda'r niferoedd cyffredinol sy'n derbyn gofal oddeutu 25% wrth i



ddeintyddfeydd ganolbwyntio ar ofal brys ac oedi triniaethau hanfodol. Mae'r ymweliadau ar gyfer triniaeth hyn yn cymryd mwy o amser nag apwyntiadau archwiliad arferol sy'n effeithio ar niferoedd y cleifion. Mae gwiriadau arferol bellach yn ailddechrau ac mae'r niferoedd sy'n cael eu gweld yn cynyddu bob wythnos.

Yn ystod mis Gorffennaf, ar ôl i bractisau agor, roedd 74% o'r gweithdrefnau yn driniaethau brys. Mae hyn wedi gostwng ers hynny, gyda chyfrannau'r triniaethau'n dechrau dychwelyd i lefelau arferol yn ystod y misoedd diwethaf.

Mae nifer y gwasanaethau optometreg a ddarperir wedi cynyddu'n gyson ers mis Gorffennaf. Ym mis Gorffennaf, cofnodwyd tua 47,000 o hawliadau am weithgaredd gan optegwyr. Mae hyn wedi cynyddu 38% ym mis Medi, gyda thros 65,000 o hawliadau wedi'u cyflwyno, sy'n 76% o lefelau 2019.

Mae gwasanaethau fferyllol wedi aros ar agor drwy gydol y pandemig, gyda phractisau'n parhau i ymateb i'r angen am ffyrdd newydd o weithio. Er enghraifft, darparwyd cyllid i bractisau er mwyn cyflwyno mesurau cadw pellter cymdeithasol mewn siopau. O ddechrau'r pandemig, gwelwyd cynnydd yn y galw am wasanaethau presgripsiynu, yn enwedig cyflenwadau brys.

### **Sut ydych chi'n lliniaru'r risgiau sy'n ymwneud â hawliadau esgeulustod clinigol o gofio'r penderfyniadau anodd y mae'n rhaid eu gwneud ynglŷn â blaenoriaethu gwasanaethau yn ystod y pandemig**

Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn nodi ei bod yn anodd iawn asesu maint y cynnydd mewn hawliadau esgeulustod clinigol yn y cyfnod cynnar hwn. Maent yn rhagweld pryderon/hawliadau mewn perthynas â heintiau Covid-19 a gafwyd yn yr ysbyty, triniaeth nad yw'n ymwneud â Covid-19 fel achosion yn ymwneud â diagnosis a thriniaeth a gollwyd/a ohiriwyd a honiadau'n ymwneud â chydsyniad.

Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg y Bartneriaeth Cydwasanaethau wedi rhoi'r mesurau canlynol ar waith i liniaru effaith unrhyw gynnydd mewn gweithgaredd hawliadau a chwynion oherwydd Covid-19:

- Gyda chefnogaeth Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru y Bartneriaeth Cydwasanaethau, coladu a dadansoddi nifer o eitemau data allweddol oddi wrth Fyrddau ac Ymddiriedolaethau lechyd i helpu i amcangyfrif yr amlygiad tebygol i'r risg o hawliadau sy'n gysylltiedig â COVID.
- Cynllun wrth gefn ar gyfer adnoddau staff ychwanegol, pe bai nifer sylweddol o achosion yn ymwneud â COVID;
- Swyddogaethau wedi'u cynnwys yn ein system rheoli achosion cyfreithiol er mwyn adnabod ac adrodd ar bob achos sydd ag elfen sy'n gysylltiedig â COVID;
- Darparu darnau unigol o gyngor cyfreithiol yn ogystal â chanllawiau mwy cyffredinol i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau lechyd ar ddelio â materion yn ymwneud â COVID a allai ddod yn hawliadau;
- Bydd canllawiau'n cael eu dosbarthu cyn bo hir yn canolbwyntio ar ymchwilio i bryderon yn gysylltiedig â Covid-19 o dan Gweithio i Wella a byddant yn

atgoffa timau pryderon y GIG o'r prawf cyfreithiol yn ymwneud ag atebolrwydd cymwys;

- Erthyglau ar hawliadau posibl yn ymwneud ag esgeulustod clinigol yn gysylltiedig â Covid-19 yn ei gylchlythyrau rheolaidd ar gyfer GIG Cymru gyda chynngor ar sut i baratoi nawr i osgoi ac amddiffyn hawliadau yn y dyfodol;
- Mynychu cyfarfod rhithwir y Grŵp Gwrando a Dysgu o Adborth ar 25 Medi a darparu gwybodaeth i aelodau ar sut i drin hawliadau/pryderon esgeulustod clinigol posibl o ganlyniad i Covid-19, gan gynnwys cynngor ar gadw cofnodion ac ati i helpu i amddiffyn hawliadau;
- Bydd gweithdy panel arall yn cael ei gynnal ar gyfer pryderon y GIG a thimau esgeulustod clinigol ar 9 Rhagfyr. Bydd aelodau'r panel yn cynnwys cynrychiolydd Gwasanaeth Cyfreithiol a Risg y Bartneriaeth Cydwasanaethau, Cadeirydd y Grŵp Gwrando a Dysgu o Adborth, ac arweinydd Gweithredol sy'n gyfrifol am reoli heintiau/cyfarpar diogelwch personol;
- Canolbwyntio ar hawliadau a phryderon posibl sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn ein diwrnod datblygu cleient (Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth) ar 24 Tachwedd;
- Defnyddio'r rhwydweithiau i hyrwyddo dull cyson a chadarn o reoli hawliadau a phryderon, y mae cyfreithiwr yn aelod o bob un ohonynt
- Rydym yn trefnu i gwrdd ag Ysgrifenyddion y Bwrdd i baratoi ar gyfer ymchwiliad cyhoeddus posibl.
- Mae Cronfa Risg Cymru wedi cefnogi sefydliadau i fabwysiadu dull cyson o gofnodi digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag amlygiad posibl i Covid-19

**Mae gennym bryderon ynglŷn ag adnewyddu system Canisc, a deallwn fod y contract ar gyfer Canolfan Ddata Blaenafon yn dod i ben. A oes modd i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y sefyllfa hon, gan gynnwys effaith bosibl y cau a'r oedi o ran triniaethau canser;**

Bydd y contract ar gyfer Canolfan Ddata Blaenafon yn dod i ben ddiwedd 2021 ac mae gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru gynllun wedi'i amserlennu i adael Blaenafon erbyn haf 2021. Mae lleoliad y ganolfan ddata newydd wedi'i gaffael, ac mae disgwyl i'r contract gael ei ddyfarnu ym mis Rhagfyr 2020. Bydd yr holl wasanaethau a systemau sy'n cael eu cynnal ym Mlaenafon ar hyn o bryd yn cael eu symud i'r cwmwl lle bo hynny'n ymarferol neu'n cael eu symud i leoliad y ganolfan ddata newydd.

Bydd System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (CaNISC) yn cael ei symud i leoliad y ganolfan ddata newydd fel rhan o'r cynllun hwn. Er mwyn rheoli risgiau CaNISC mewn perthynas â'r symud, mae'r Bwrdd Rhaglen Gwybodeg Canser wedi cyflymu'r cynllun Gwybodeg Canser, gan flaenoriaethu datblygu'r meysydd lle byddai colli'r gallu i weithredu yn cael mwy o effaith ar wasanaethau canser. Mae trefniadau cyflwyno rhaglenni wedi'u hadolygu i gefnogi'r dull hwn gyda thimau yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Felindre, y Rhwydwaith Canser a'r gwasanaeth canser ehangach yn cydweithio'n agos ar y cynlluniau datblygu a gweithredu.

Mae gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud i ddarparu cydnheredd os bydd y system yn methu ac i gynnal mynediad at nodiadau achos ar CaNISC. Mae crynodebau o nodiadau achos CaNISC bellach ar gael ledled Cymru fel rhan o'r Cofnod Iechyd a

Gofal Digidol, yn annibynnol ar y system CaNISC ei hun, sydd hefyd â'r fantais o sicrhau bod nodiadau achos ar gael i feddygon teulu a gweithwyr proffesiynol clinigol eraill sy'n darparu gofal i gleifion ond nad ydynt yn ddefnyddwyr CANISC.

**Ar 1 Tachwedd 2020, nododd lechyd Cyhoeddus Cymru, oherwydd problem trosglwyddo data rhyngddo a Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru 'efallai na fydd rhai canlyniadau profion diweddar wedi'u cynnwys' yn y data a adroddwyd ar gyfer y diwrnod hwnnw. A allwch egluro beth ddigwyddodd a pha gamau a gymerwyd i atal unrhyw broblemau rhag digwydd eto.**

Mewn perthynas â'r oedi wrth drosglwyddo data rhwng Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru ac lechyd Cyhoeddus Cymru a adroddwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru ar 1 Tachwedd, roedd hyn yn ymwneud â methiant yn y broses echdynnu data rheolaidd o System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru. Datryswyd hyn yn llawn a chynhwyswyd y canlyniadau yn y ffigurau a gyhoeddwyd y diwrnod canlynol. Rydym yn ymwybodol y bu sawl enghraifft o oedi a phroblemau gyda rhyddhau data ar brofion ar lefel Lloegr/y DU. Yn gyffredinol rydym o leiaf mor gynhwysfawr, mor dryloyw ac mewn amser real ag unrhyw ran arall o'r DU, o bosibl yn fwy felly.

**Ym mis Awst, gwnaethoch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor ar reoli apwyntiadau dilynol Cleifion Allanol ar draws Cymru. A allwch chi roi diweddariad o ran y data a nodir yn eich llythyr, a oedd cyn dyfodiad y pandemig; beth mae'r data newydd yn ei ddangos o ran y sefyllfa ar lefel ranbarthol a chenedlaethol**

Mae maint cyffredinol y rhestr aros am apwyntiadau dilynol wedi parhau i leihau yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae 767,060 o gleifion yn aros am apwyntiad dilynol ar ddiwedd mis Hydref 2020 o'i gymharu â 805,318 ym mis Mawrth 2020.

Bu cynnydd yn nifer y cleifion sydd wedi profi oedi o 170,694 ar ddiwedd mis Mawrth 2020 i 200,030 ar ddiwedd mis Hydref 2020. Mae hyn oherwydd yr heriau'n gysylltiedig ag adolygu cleifion dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae gwaith ar y gweill i gynyddu adolygiadau rhithwir gan ganolbwyntio ar y rhai sydd wedi bod yn aros am gyfnod hir.

Yn gywir



Dr Andrew Goodall